

# Detholiad o'r straeon y tu ôl i Adolygiad Morol 2023 yr Ymddiriedolaethau Natur

Mae crynodeb blynyddol yr Ymddiriedolaethau Natur o fywyd ym moroedd y DU yn cyflwyno straeon o obaith a thorcalon drwy gyfarfyddiadau nodedig, llwyddiannau cadwraeth a heriau i fywyd gwyllt morol ac arfordirol. Edrychwch ar y datganiad i'r wasg a fydd yn cael ei gyhoeddi ar ein [tudalen newyddion](#) ar ddydd Gwener 29<sup>ain</sup> Rhagfyr 2023. Mae'r hyn sy'n dilyn yn ddetholiad o straeon a gasglwyd gan dimau Moroedd Byw yr Ymddiriedolaethau Natur, gyda rhai ohonynt wedi cyfrannu at y datganiad i'r wasg.

## Môr y Gogledd

Ymddiriedolaeth Natur yr Alban:

- Cafodd trigolion Moray Firth bleser o wyllo golygfa nodedig iawn eleni – nifer anhygoel o heulforgwn diniwed oddi ar arfordir dwyreiniol yr Alban. Y gred ydi bod o leiaf un o'r siarcod wedi teithio o arfordir gorllewinol yr Alban, lle maen nhw i'w gweld fel rheol oherwydd eu llwybrau mudo. Gwelwyd yr heulforgwn yn bwydo ar flodau plancton trwchus a oedd yn ganlyniad i'r tywydd da.

- Mae ymchwil allanol i huganod y gogledd sydd â channwyll llygaid du, yn hytrach na glas golau, ar Bass Rock, y boblogaeth fwyaf o huganod yn y byd, yn awgrymu bod hyn yn arwydd bod yr adar wedi goroesi'r ffliw adar. Mae adar sydd â llygaid du wedi cael eu gweld ymhlith huganod eraill ac mewn rhywogaethau eraill fel gwyllanod y penwaig.

Ymddiriedolaeth Natur Northumberland:

- Roedd dechrau 2023 yn dawel yn Scarborough, wrth i arddangosfa dân gwyllt y Flwyddyn Newydd gael ei chanslo i amddiffyn Thor, walrws yr Arctig 'enwog' oedd wedi dod i ymweld ac a oedd yn gorffwys ar yr arfordir. Wedi'i weld yn flaenorol yn Swydd Hamp a Swydd Efrog, cafodd trigolion Blyth, Northumberland, gyfle prin i'w weld yn yr harbwr. Ar ôl gadael Blyth, teithiodd Thor tua 850 milltir i Wlad yr Iâ. Mae nifer y walrysau sydd wedi cael eu gweld yn y DU wedi cynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac er nad yw achos y cynnydd yma'n hysbys, mae'n bosibl y gallai fod oherwydd bod tymheredd y

môr yn codi o ganlyniad i newid yn yr hinsawdd.

Ymddiriedolaeth Natur Dyffryn Tees:

- Dywedodd gwirfoddolwyr bod miloedd o beli rwber glas bach wedi cael eu golchi i'r lan ar draethau Glannau Tees. Mae'r peli Taprogge glas yma'n cael eu defnyddio i lanhau'r system oeri yng Ngorsaf Bŵer EDF yn Hartlepool ac fe gawsant eu gollwng i'r môr wrth i bwysedd sydyn Gronni gan achosi problem i fywyd gwyllt y môr. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi bod yn gweithio gydag EDF, gyda chefnogaeth y gymuned, i wella effeithiolrwydd yr ymdrech lanhau.

Ymddiriedolaeth Natur Durham:

- Mae Stronger Shores yn dod ag Ymddiriedolaethau Natur Durham, Northumberland a Dyffryn Tees a phartneriaid eraill at ei gilydd, i gyflwyno gweithgareddau a fydd yn helpu ymarferyddion a llunwyr polisïau i ddeall manteision adfer cynefinoedd morol wrth amddiffyn rhag llifogydd ac erydiad arfordirol. Mae'r bartneriaeth hon sy'n cael ei chyllido gan DEFRA FCRIP yn adeiladu ar waith The Wild Oyster Project yn Whitburn lle mae 10,000 o wystrys brodorol wedi cael eu hailgyflwyno, a gwaith Ymddiriedolaeth Afon Tees lle mae meithrinfa morwellt ac wystrys wedi cael ei hadeiladu yn Teesmouth. Bydd yr Ymddiriedolaethau Natur yn gwneud gwaith arloesol i adfer gwymon a morwellt ac yn datblygu ymgysylltu a chyfathrebu ar adfer cynefinoedd morol.

- Bu Ymddiriedolaeth Natur Durham yn gofalu am y boblogaeth o fôr-wenoliaid bach yn Seaton Carew. Yn rhan o waith a gyflawnwyd o dan Bartneriaeth Morweddau'r NLHF, bu eleni'n flwyddyn aruthrol i'r aderyn môr bach yma gyda mwy na 125 o gywion yn hedfan y nyth. Cofnod diweddar i'r ardal hon o'r arfordir a datblygiad pwysig wrth i sefydliadau weithio i atal dirywiad y rhywogaeth hon o fôr-wennol sydd dan fygythiad.

Ymddiriedolaeth Natur Swydd Efrog:

- Diolch i gefnogaeth nifer fawr o staff a gwirfoddolwyr sy'n gwasanaethu rhan enfawr o arfordir Môr y Gogledd, mae 2023 wedi bod yn flwyddyn o weld rhywogaethau prin ym Môr y Gogledd gydag orca, heulforgwn, dolffiniaid cyffredin, morfilod pengrwn, pysgod hedegog, pysgod haul, morfilod pigfain yn llamu a thiwna asgell las wed'u gweld i gyd eleni.

Ymddiriedolaeth Natur Swydd Lincoln:

- Mae'r Ymddiriedolaeth wedi ymrwymo i ddatblygu gyrfaoedd mewn cadwraeth ar gyfer y genhedlaeth nesaf. Mae interniaid 'North Sea Marine Future' yr Ymddiriedolaeth, sef Jasmine Brown a Sian Peace, wedi gwneud cynnydd o ran datblygu eu gwybodaeth a'u sgiliau, wedi'u galluogi gan gyllid gan Ystad y Goron. Mae'r interniaid hefyd wedi cael eu croesawu gan Ymddiriedolaethau Natur Suffolk a Swydd Efrog i ymuno â gweithgareddau a chyflwyno prosiectau ar eu cyfer, ynghyd ag Ørsted a Natural England.

- Mae menter Wilder Humber sy'n cynnwys Ymddiriedolaethau Natur Swydd Lincoln a Swydd Efrog wedi goruchwyllo'r cynllun a'r rhaglen waith ar gyfer morfa heli, twyni tywod a meithrinfa morwellt ar eu safle, Sea View Farm. Maent yn defnyddio dronau i sicrhau gwell dealltwriaeth o'r parth rhynglanwol, ochr yn ochr ag arolygon maes i ddatblygu llinell sylfaen gref. Dyma'r tro cyntaf i'r Ymddiriedolaethau hyn ddefnyddio dull 'morwedd' o gofnodi adfer cynefinoedd cysylltiedig, gan gynnwys twyni tywod, morfa heli, gwelyau morwellt a riffiau wystrys brodorol.

#### Ymddiriedolaeth Natur Norfolk:

- Yn olygfa brin yn yr ardal, gwelwyd pod bychan o ddolffiniaid trwyn potel oddi ar arfordir Norfolk ym mis Awst. Yn dilyn astudiaethau gan Ymddiriedolaethau Natur Môr y Gogledd, Prifysgol St Andrews, Prifysgol Aberdeen, Whale and Dolphin Conservation a gwirfoddolwyr ymroddedig, Karen Munro a Steve Truluck, mae lluniau o'r dolffiniaid wedi cael eu cymharu i adnabod unigolion o fewn y pod ac olrhain symudiadau'r dolffiniaid yma wrth eu gweld bob tro. Mae'n ymddangos bod y dolffiniaid wedi mynd ar daith o amgylch y DU, gan ymweld â Rona Gap yn yr Hebrides (18<sup>fed</sup> Gorffennaf), Gairloch (20<sup>fed</sup> Gorffennaf), Trwyn St Johns i Wick, Caithness (22<sup>ain</sup> Gorffennaf), Gairloch (25<sup>ain</sup> Gorffennaf), Moray Firth (26<sup>ain</sup> Gorffennaf), John O'Groats i Lybster (3<sup>ydd</sup> Awst) ac wedyn, mewn llai nag 11 diwrnod yn nofio o'r Alban i Norfolk (14<sup>eg</sup> Awst).

#### Ymddiriedolaeth Natur Suffolk:

- Gwelodd deifwyr Seasearch rywogaeth anarferol, tebyg i angel, o wlithen y môr, y thecacera adeiniog, gyda smotiau oren a du, oddi ar arfordir Suffolk, wedi glynu wrth gragen cranc.

- Mae Corsydd Hazelwood, a drawsnewidiodd o fod yn ardal dŵr croyw warchoddedig i barth rhynglanwol dŵr hallt yn ystod ymchwydd llanw 2013,

wedi dod yn feithrinfa bysgod ffyniannus bellach. Mae arolygon yn datgelu llawer iawn o rywogaethau ifanc fel draenogod y môr, gobiïod y tywod, a lledod mwd. Mae adar ysglyfaethus mawr, gweilch y pysgod, wedi'u cofnodi'n bwydo ar y safle hefyd, gan ddatgelu tystiolaeth bellach o werth gwarchodfeydd arfordirol ar gyfer bioamrywiaeth.

Ymddiriedolaeth Natur Essex:

- Gosododd prosiect Share Our Shores gamerâu ar bob nyth ar hyd y lan yng Ngwarchodfa Natur Colne Point am y tro cyntaf erioed. Mewn partneriaeth ag amrywiaeth o sefydliadau, llwyddodd y prosiect i gofnodi bron i 100% o weithgarwch y cwtiad torchog, y bioden fôr a'r fôr-wennol fach yn magu ar draws tri safle craidd y prosiect. Rhoddodd hyn wybodaeth werthfawr am y patrymau nythu a'r tarfu a wynebir gan boblogaethau o adar sy'n nythu ar y traeth. Rydym yn amau bod pobl yn tarfu ar nythod wedi achosi methiant rhai, tra bo brain a llwynogod wedi ysglyfaethu hefyd. Mae Ymddiriedolaeth Natur Essex, yr RSPB a phartneriaid yn gweithio i godi ymwybyddiaeth o'r nythod a sut gall pobl helpu i atal tarfu a diogelu nythod rhag ysglyfaethwyr.

- Darganfuwyd morfarch trwynfyr prin y tu allan i Harbwr Harwich, oddi ar arfordir gogleddol Essex, ac mae'n arddangos amrywiaeth ryfeddol y bywyd morol yn nyfroedd llwyd Essex.

Ymddiriedolaeth Natur Caint:

- Aeth rhaglen Shoresearch yr Ymddiriedolaeth ar hyd y riffiau sialc enwog a'r glannau creigiog o nerth i nerth eleni. Roedd y gwirfoddolwyr wedi'u syfrdanu gan y cyfoeth o fywyd ar hyd y 'Parth Cadwraeth Morol' gwarchodedig, gan gynnwys mwy nag 20 o slefrod môr coesog ym mis Medi, ac nid oedd yr Ymddiriedolaeth wedi gweld cymaint o niferoedd o'r blaen. Mae'n ymddangos bod yr ardal warchodedig yn gwneud yn dda ond parhaodd y pryder cyson ynghylch llygredd afonydd rhemp, wrth i ardaloedd fel Fulsam Rock gael eu monitro'n fanwl am flodau o algâu brown a gwyrdd sy'n cael eu hachosi gan orlif o garthion sy'n bygwth tagu'r darn gwerthfawr yma o gynefin rîff prin.

## **Môr Udd / Y Sianel**

Ymddiriedolaeth Natur Sussex:

- Er mwyn helpu i fynd i'r afael â gwastraff plastig, yn enwedig offer pysgota

segur, mae Wild Coast Sussex (partneriaeth rhwng Ymddiriedolaeth Natur Sussex, MCS, yr IFCA lleol a Brighton Sea Life) wedi helpu pysgotwyr i ailgylchu hen offer rhwydi pysgota gan gasglu cyfanswm o 9,600kg o rwydi a fyddai wedi mynd i safleoedd tirlenwi fel arall. Mae'r offer segur a adferwyd yn cael ei ailgylchu i greu cynhyrchion newydd, fel caiacs.

- Ymddangosodd mewnlifiad o slefrod môr i fyny ac i lawr arfordir Sussex dros yr haf. Ymhlith y rhywogaethau a welwyd roedd slefrod môr glas a lleuad, ac amcangyfrifir bod cyfanswm o filoedd o slefrod môr wedi ymddangos ar y glannau yn ystod mis Mehefin. Er nad yw gweld slefrod môr yn anghyffredin yma, maent mewn niferoedd mor fawr.

Ymddiriedolaeth Natur Swydd Hamp ac Ynys Wyth:

- Eleni dechreuwyd ar y gwaith ar Brosiect ar raddfa fawr Morwedd Solent, sef prosiect gwerth £5 miliwn sy'n ceisio diogelu ac adfer morfeydd heli, morwellt, wystrys ac adar magu ar draws aber y Solent. Daeth uchafbwynt y gwaith yma ym mis Gorffennaf, pan fu gwirfoddolwyr nid yn unig yn cymryd rhan mewn casglu morwellt yn llwyddiannus ond hefyd yn ddigon ffodus i weld slefrod môr coesog a dawns garwriaethol pibellau môr lleol cariadus.

- Aeth Gwobr Gwirfoddolwr Ifanc Ymddiriedolaeth Elusennol Marsh ar gyfer Cadwraeth Forol i Arun Curson, sef hyrwyddwr morol ieuengaf Ymddiriedolaeth Natur Swydd Hamp ac Ynys Wyth.

- Mae gwllithen fôr brin wedi cael ei darganfod ar arfordir y de ger Southampton, y cofnod cyntaf wedi'i ddilysu gyda llun yn y DU. Darganfuwyd y Ddoris Ddafadennog (*Doris verrucosa*) am y tro cyntaf gan wirfoddolwr Shoresearch, Jenny Mallinson, wrth gynnal arolwg yn Hythe.

Ymddiriedolaeth Natur Dorset:

- Cofnododd yr Ymddiriedolaeth diwna asgell las yr Iwerydd 9 troedfedd o hyd a gafodd ei olchi i'r lan ym Mae Kimmeridge. Roedd tiwna asgell las wedi'u gweld cyn y digwyddiad yma yn hela yn y Sianel.

- Yn gwbl syfrdanol, datgelodd deifio gwefreiddiol ym Mae Poole 7 morfarch trwynfyr mewn un diwrnod. Grŵp o ddeifwyr Seasearch Dorset ddaeth o hyd iddynt. Mae morfeirch trwynfyr yn cael eu cofnodi'n llai cyffredin yn nyfroedd Dorset na'r morfeirch pigog.

- Collodd yr Ymddiriedolaeth 600 o adar i'r ffliw adar ar Ynys Brownsea yn anterth y tymor magu – cywion môr-wenoliaid pigddu a môr-wenoliaid cyffredin yn bennaf, a gwylanod penddu. Ceisiodd rhai oedolion gael ail nythaid.

#### Ymddiriedolaeth Natur Dyfnaint:

- Mae Ymddiriedolaethau Natur o amgylch Ynysoedd Prydain wedi adrodd am weld tiwna asgell las yr Iwerydd, yn cynnwys yn Nyfnaint.

- Mae Canolfan Forol Wembury yr Ymddiriedolaeth wedi cael blwyddyn wych yn cysylltu pobl â bywyd o dan y tonnau, gan weld amrywiaeth o fywyd morol gan gynnwys cimychiaid, môr-geinachod, crancod meudwyol Sant Piran a gwrachod. Wrth archwilio pyllau glan môr yn ystod y nos gan ddefnyddio cyffyrddiadau UV, daethpwyd o hyd i grancod heglog a physgod yr anemoni goleuol, ac ymhellach i lawr yr arfordir, adroddodd sgwba ddeifwyr yn Plymouth am weld sawl octopws mawr. Fodd bynnag, mae rhywogaethau ymledol wedi'u gweld hefyd, gan gynnwys chwyn tafod y cythraul, chwistrellau môr lledraidd, ewinedd moch ac wystrys y Môr Tawel.

- Ymhlith y pethau nodedig eraill a welwyd mae pysgod hedegog yn Plymouth Sound ac oddi ar arfordir Swydd Efrog – er eu bod yn rhywogaeth yr Iwerydd, pur anaml y gwelir y rhain yn nyfroedd arfordirol y DU.

- Yn anarferol iawn, gwelwyd pod o 60 o lamidyddion yn hela mewn llinell ym Mae Bigbury, oddi ar arfordir deheuol Dyfnaint, ym mis Gorffennaf.

#### Ymddiriedolaeth Natur Cernyw:

- Eleni dathlodd yr Ymddiriedolaeth raddfa'r morwellt ym Mae St Austell, sef bron i 360 hectar - yr ardal fwyaf o forwellt yng Nghernyw ac un o'r rhai mwyaf yn y DU. Cofnodwyd 56 o rywogaethau yn ystod arolygon deifio gan nodi'r ardal fel llecyn pwysig o ran bioamrywiaeth. Mae morwellt yn hynod bwysig wrth storio carbon hefyd.

- Mae wedi bod yn flwyddyn aruthrol i ddolffiniaid Risso yng Nghernyw eleni gyda 156 wedi'u gweld yn 2023 o gymharu â 45 yn 2022. Yn cael eu camgymryd am orca weithiau, dros yr haf gwelwyd arch-bodiau prin, a llawer o fwrlwm bwydo, gyda dolffiniaid cyffredin a morfilod asgellog llwyd yn ymuno. Mae dolffiniaid Risso yn hela ac yn bwydo ar fôr-gyllyll ond nid yw'r Ymddiriedolaeth wedi sefydlu eto a yw'r cynnydd yn niferoedd y dolffiniaid

Risso yn gysylltiedig â chynnydd mewn bwyd.

#### Ymddiriedolaeth Natur Ynysoedd Sili:

- Mae arolygon adar môr ar Ynysoedd Sili wedi dangos dirywiad mawr mewn poblogaethau o wylanod ers 2015, gan gynnwys gwyllanod cefnddu mwyaf (38%), gwyllanod cefnddu lleiaf (58%) a gwyllanod y penwaig sydd ar y rhestr goch (40%). Fodd bynnag, lle mae camau wedi'u cymryd i adfer cynefinoedd yr ynysoedd, mae adar môr sy'n nythu mewn tyllau wedi profi adferiad rhyfeddol. Mae pedrynnod drycin ac adar drycin Manaw wedi profi cynnydd sylweddol gyda niferoedd yr adar drycin Manaw yn dyblu yn ystod yr 8 mlynedd diwethaf. Edrychwch ar: [Arolwg diweddaraf adar môr Sili yn datgelu dirywiad dramatig ar draws poblogaethau magu lleol.](#)
- Heidiodd adarwyr i Ynysoedd Sili i weld dwy rywogaeth o fwbïod ym mis Awst. Gwelwyd un bwbi troedgoch ac un bwbi brown, sydd i'w gweld yn fwy cyffredin yn y trofannau, yn gorffwys ar Oleudy Bishop Rock.

#### Ymddiriedolaeth Natur Alderney:

- Mae nifer o Ymddiriedolaethau Natur wedi cofnodi cynnydd mewn gweld tiwna asgell las trawiadol yr Iwerydd, a oedd unwaith yn gyffredin yn nyfroedd y DU ac a all dyfu i hyd at 10 troedfedd (3m) o hyd a phwysu mwy na 1,000 pwys.
- Mae'r Ymddiriedolaeth yn bwriadu darganfod mwy am boblogaeth a symudiadau'r forglust werdd, rhywogaeth o falwen fôr o bwysigrwydd rhanbarthol, gydag arolwg tagio newydd wedi'i gynllunio ar yr ynys.
- Y gred oedd bod tua 25% o'r boblogaeth o huganod yn eu llawn dwf mewn dwy boblogaeth ger Alderney wedi marw oherwydd y ffliw adar yn 2022, sy'n golygu bod llai na thraean o'r nythod wedi magu cywion yn llwyddiannus. Fodd bynnag, mae gwaith monitro gan yr Ymddiriedolaeth eleni yn awgrymu na fu unrhyw achosion o'r ffliw adar ar yr ynysoedd ac mae tua dwy ran o dair o barau magu wedi magu cywion yn llwyddiannus. Mae llawer o huganod wedi'u gweld gyda channwyll llygaid du, ac mae arolygon ffotograffig yn amcangyfrif y gallai 30 i 35% o'r adar yn y poblogaethau fod â llygaid duon. Mae'r Ymddiriedolaeth yn gobeithio y bydd poblogaethau eiconig Alderney o huganod yn adfer yn ystod y blynyddoedd sydd i ddod.
- Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cynnal yr arolwg sylfaen cyntaf erioed o

rywogaethau ymledol ar Alderney, gan nodi dwy rywogaeth ymledol newydd ar yr ynys – wystrys y Môr Tawel a chwyn tafod y cythraul. Mae'r Ymddiriedolaeth yn y cam monitro ar hyn o bryd i sefydlu gwaelodlin cyn bwrw ymlaen â mesurau priodol i leihau eu lledaeniad. Mae chwyn tafod y cythraul wedi ymledu o ardal gyfyngedig i'r bae cyfan.

## **Y Môr Celtaidd a Môr Hafren**

Ymddiriedolaeth Natur Gwlad yr Haf:

- Mae llamhidyddion yr harbwr wedi'u gweld ym Môr Hafren, yn mynd i fyny afonydd, i fwydo yn ôl pob tebyg a gyda lloi mewn llecyn magu o bosibl ym mhen gorllewinol y Sianel ger ffin Dyfnaint. Mae Ymddiriedolaeth Natur Gwlad yr Haf yn hyfforddi gwirfoddolwyr lleol o amgylch y Sianel i wylio llamhidyddion yr harbwr i helpu i ddysgu mwy am y morfilod hyn ac i adnabod unigolion drwy ffotograffau. Y gobaith yw y bydd yr ymchwil yn cynhyrchu sylfaen o ddata i ddeall faint o unigolion sydd yno a'r ardaloedd allweddol ar eu cyfer.
- Cynhaliodd Ymddiriedolaeth Natur Gwlad yr Haf 'Ddiwrnod Mwd' ar yr arfordir, gan sefydlu microsgopau i ddangos i bobl y creaduriaid niferus sydd i'w cael mewn gwaddod a pham mae cymaint o warchodaeth ar hyd arfordir Gwlad yr Haf, oherwydd pwysigrwydd yr anifeiliaid hyn fel bwyd ar gyfer adar sy'n heidio i Aber Afon Hafren.
- Fel rhan o'r Wythnos Forol Genedlaethol, cynhaliodd yr Ymddiriedolaeth ddiwrnod gwyddoniaeth forol ar gyfer 30 o bobl ifanc (13 i 24 oed) a ddysgodd am arfordir Gwlad yr Haf a chymryd rhan mewn arolwg Shoresearch. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi bod yn mynd â grwpiau ieuenctid (o ardaloedd difreintiedig yn aml) i'r traeth hefyd, gan helpu plant i ddarganfod pleserau'r arfordir.

Ymddiriedolaeth Natur Avon:

- Mae'r Ymddiriedolaeth wedi bod yn annog pobl leol i helpu i atal sbwriel rhag cyrraedd y môr drwy godi ymwybyddiaeth o ymgyrchoedd casglu sbwriel yn eu hardal leol, a chael gwared ar sbwriel o afonydd a nentydd – sydd i gyd yn y pen draw yn arwain i'r môr. Mae pobl leol wedi bod yn helpu i fonitro ansawdd y dŵr hefyd.



## Ymddiriedolaeth Natur Gwent:

- Trefnodd yr Ymddiriedolaeth ddigwyddiad glanhau blynyddol i warchod y blaendraeth yn Llanbedr Gwynllŵg, ardal lanw fywiog yn Aber Afon Hafren. Gan gydweithio â 25 o wirfoddolwyr ymroddedig, casglodd y cyfranogwyr angerddol yma tua 40 bag o sbwriel, gan gynnwys offer pysgota / rhaffau, teiars a chynwysyddion plastig.

## Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru:

- Roedd 2023 yn flwyddyn gymysg i adar môr Sir Benfro. [Cynyddodd niferoedd y palod ar ynys enwog Sgomer](#) i 42,513 o balod, cynnydd o bron i 10% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol ac yn mynd yn groes i'r duedd o ddirywiad a welir yn fyd-eang. Yn dilyn tymor magu gweddol arferol ar Sgomer a Sgogwm roedd y clogwyni'n wag o wylogod cyffredin gan eu bod wedi dychwelyd i'r môr ar gyfer y gaeaf. Fodd bynnag, ar 8<sup>fed</sup> Gorffennaf dechreuodd adar marw neu sâl ymddangos ar draethau yn Ne Sir Benfro. O fewn y tair wythnos ganlynol yn unig [casglwyd](#) 1,060 o adar, gwylogod yn bennaf, [o draethau](#) rhwng Pen-y-bont ar Ogwr a Thyddewi. Cadarnhaodd profion fod y ffliw adar yn bresennol.
- [Dyfarnwyd £560,000](#) i'r Ymddiriedolaeth i ddechrau prosiect 3 blynedd ar rywogaethau dangosol morol – poblogaethau adar môr o bwysigrwydd byd-eang ar ynysydd Sgomer a Sgogwm, a dolffiniaid trwyn potel ym Mae Ceredigion.

## Môr Iwerddon

### Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru:

- Fel rhan o Wersyll Morwellt blynyddol yn llawn gweithgareddau, cyfrannodd 11 o [Hyrwyddwyr Achub Cefnforoedd](#) (11 i 16 oed) a 4 Mentor Achub Cefnforoedd (16 i 24 oed) o Ynys Môn at y nod o gasglu 1,000,000 o hadau morwellt ar gyfer [ymdrechion adfer](#) ar Benrhyn Llŷn. Buont hefyd yn cyfarfod â Gweinidog Cymru ar gyfer Newid yn yr Hinsawdd, Julie James, i siarad am yr hyn yr oeddent yn ei wneud ac yn gofyn cwestiynau am yr hyn y bydd ei phlaid hi yn ei wneud dros gadwraeth forol. Bu'r Hyrwyddwyr yn chwarae rhan flaenllaw hefyd yn rhaglen 'Let It Grow' Blue Peter yn gynharach eleni, gan dderbyn bathodynau gwyrdd anrhydeddus Blue Peter.

- Effeithiwyd ar yr unig boblogaeth o fôr-wenoliaid pigddu yng Nghymru gan y ffliw adar, a chasglwyd 711 o gywion marw.
- Cafodd gwirfoddolwyr Shoresearch ar Ynys Môn syndod o weld anemonïau nadreddog yn bwyta plisgyn uchaf malwoden fôr ac abwyd y môr.

#### Ymddiriedolaeth Natur Swydd Gaer:

- Yn ôl yr Ymddiriedolaeth, bu'n flwyddyn eithriadol i'r llyffant y twyni prin, diolch i'w hymdrechion i gynnal a chadw pyllau ac er gwaethaf tywydd poeth eithriadol dechrau'r haf. Mewn un digwyddiad, darganfu'r Ymddiriedolaeth fwy na 200 o lyffantod bach yn gorchuddio'r ddaear! Ym Mhrydain, mae llyffantod y twyni wedi'u cyfyngu'n gyfan gwbl bron i systemau twyni tywod arfordirol, corydd pori arfordirol a rhostiroedd tywodlyd.

#### Ymddiriedolaeth Natur Swydd GaerhIRfryn:

- Mewn cyflawniad rhyfeddol o gadwraeth arfordirol, enillodd Prosiect Twyni Fylde Sand Wobr Rhagoriaeth Arfordirol y Gogledd Orllewin yn 2023 am Arfer Gorau Arfordirol yng nghynhadledd 'Newid Hinsawdd ar Arfordir y Gogledd Orllewin' eleni. Yn gydweithrediad nodedig rhwng Ymddiriedolaeth Natur Swydd GaerhIRfryn, Cynghorau Blackpool a Fylde ac Asiantaeth yr Amgylchedd, dros y 15 mlynedd diwethaf mae'r prosiect wedi gweithio i ehangu'r twyni tua'r môr, gan ddarparu amddiffynfeydd môr cynaliadwy ac ecosystem ffyniannus, a chwarae rhan ganolog mewn datblygu arfordir sy'n gallu gwrthsefyll yr hinsawdd.

#### Ymddiriedolaeth Natur Cumbria:

- Mae'r Ymddiriedolaeth wedi adrodd am lefel uchel o darfu gan gychod yn mynd yn rhy agos at unig boblogaeth Cumbria o forloi – dioddefodd morloi a llamhidyddion yr harbwr y canlyniadau. Mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithio gyda chwmnïau fferi lleol a defnyddwyr cychod i gadw at ganllawiau'r llywodraeth yn dilyn adroddiadau am farwolaeth morlo a llamhidydd yr harbwr wedi'i anafu. Mae tarfu ar forloi yn parhau i fod yn broblem o amgylch ein harfordiroedd ni.
- Yn dilyn 6 mis cyffrous o hyfforddiant, mae gwirfoddolwyr lleol ymroddedig ar hyd arfordir Cumbria wedi graddio fel Hyrwyddwyr Morol gydag Ymddiriedolaeth Natur Cumbria. Gan gwmpasu'r darn hardd o'r arfordir o Fae

Morecambe i St Bees, mae pobl leol o bob oedran wedi mentro'n gyffrous i fyd cadwraeth forol, gan feithrin sgiliau a hyder wrth ehangu mentrau cadwraeth arfordirol. Mae'r hyrwyddwyr wedi cael eu hyfforddi mewn dulliau arolygu morol, adnabod rhywogaethau a sut i gynnal digwyddiadau i gefnogi ac ehangu ymdrechion cadwraeth forol Ymddiriedolaeth Natur Cumbria.

Ymddiriedolaeth Natur Ynys Manaw:

- Yn 2013 sefydlwyd rhaglen tagio siarcod bach Ynys Manaw, dan arweiniad Ymddiriedolaeth Natur Ynys Manaw (MWT) mewn partneriaeth ag Adran yr Amgylchedd, Bwyd ac Amaethyddiaeth (DEFA), i helpu i ddarganfod mwy am ddsbarthiad, symudiad a maint y boblogaeth o siarcod a môr-gathod yn nyfroedd Manaw drwy weithio gyda physgotwyr lleol ar raglen o ddal, tagio a rhyddhau. Eleni, mae'r prosiect wedi cofnodi dau ail ddaliad o fôr-gŵn glas, ar ôl tagio'r ddau unigolyn y llynedd yn nyfroedd Ynys Manaw. Cafodd un ei ail ddal ym mis Mai oddi ar arfordir Sbaen, a'r llall ym mis Gorffennaf oddi ar arfordir Portiwgal. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi tagio mwy na 500 o siarcod ers i'r rhaglen ddechrau yn 2013.

- Mae arolygon morloi yn datgelu bod 2023 wedi bod yn flwyddyn aruthrol i forloi bach ar y Calf of Man. Mae cyfanswm anhygoel o 94 o forloi bach hoffus, sy'n gynydd sylweddol o gymharu â'r 62 i 66 arferol, wedi cael eu cofnodi drwy arsylwi a thechnoleg dronau, sydd wedi helpu i gael mynediad i ardaloedd sy'n anodd eu gweld. Credir bod morloi bach yn cael eu geni ychydig wythnosau ynghynt ar yr ynys o bosibl, oherwydd bod tymheredd y môr yn gynhesach.

Ymddiriedolaeth Natur Ulster:

- Fis diwethaf, gosododd Ulster Wildlife, mewn partneriaeth â Harbwr Belfast, feithrinfa wystrys yn y porthladd i helpu i adfer poblogaeth frodorol y rhywogaeth, gwella ansawdd y dŵr a hybu bioamrywiaeth forol. Mae'r feithrinfa y gyntaf o'i bath i gael ei chyflwyno i sianel forio fasnachol yng Ngogledd Iwerddon. Bydd yn gartref i tua 600 o wystrys brodorol, sydd wedi cael eu glanhau, eu mesur a'u sgrinio am afiechyd gan grŵp o wirfoddolwyr, gan gynnwys cynrychiolwyr Ulster Wildlife a gweithwyr Harbwr Belfast, cyn eu gosod yn y feithrinfa.

**Gogledd Cefnfor yr Iwerydd**

## Ymddiriedolaeth Natur yr Alban:

- Ar Ynys Lewis ym mis Gorffennaf, daeth pod cyfan o 55 o forfilod pengrwn i'r lan, gan ei wneud yn un o'r digwyddiadau torfol mwyaf o ran morfilod yn dod i'r lan yn y DU mewn hanes diweddar. Er gwaetha'r ymdrechion gorau i'w hachub gan amrywiaeth o sefydliadau, bu farw 54 o'r morfilod neu, yn y pen draw, cawsant eu rhoi i gysgu ar sail lles, a dim ond un anifail lwyddodd i ddychwelyd i'r môr. Mae morfilod pengrwn yn adnabyddus am eu cysylltiadau cymdeithasol cadarn, felly yn aml pan fydd un neu fwy o forfilod yn mynd i drafferthion ac yn dod i'r lan, mae'r gweddill yn dilyn.
- Gwelwyd arch-bod o ddolffiniaid cyffredin yn cynnwys rhwng 200 a 500 o ddolffiniaid, 6 i 10 o forfilod pigfain, huganod, adar drycin Manaw, carfilod, gwyfanod coesddu, sgiwennod mawr, trochyddion mawr ac eryrod y môr, mewn digwyddiad bwydo enfawr oddi ar arfordir Coll.

## Gwybodaeth bellach:

**Statws y tiwna asgell las yn nyfroedd y DU yn 2023** – edrychwch ar y crynodeb yma: [Bluefin tuna in the UK - GOV.UK \(www.gov.uk\)](https://www.gov.uk/government/news/bluefin-tuna-in-the-uk-2023)

Yn y 1930au, denodd pysgodfa tiwna asgell las hamdden ym Môr y Gogledd dyrfaedd o bysgotwyr cyfoethog i harbyrau fel Scarborough a Whitby. Yng nghanol yr 20fed ganrif, datblygodd pysgodfa tiwna asgell las bwrpasol ym Môr y Gogledd wrth i bysgotwyr masnachol ddysgu sut i ddal y pysgod anferthol hyn. Cafodd tiwna enfawr eu dal nes i orbysgota difrifol achosi i'r bysgodfa ddymchwel tua diwedd y 1960au. Daeth gweld tiwna asgell las yn beth prin ac roedd wedi diflannu bron o ddyfroedd y DU erbyn y 1990au. Yn 2007, lansiodd y Comisiwn Rhyngwladol ar gyfer Cadwraeth Tiwna'r Iwerydd (ICCAT) gynllun adfer 15 mlynedd ar gyfer y rhywogaeth. Roedd hwn yn gam arwyddocaol yn adfywiad y poblogaethau o diwna. Mae gweithredu mesurau rheoli pysgodfeydd effeithiol yn llwyddiannus, ynghyd â dylanwad gorfodi hinsoddol, yn golygu bod niferoedd y rhywogaeth hon bellach yn cynyddu o flwyddyn i flwyddyn, ac yn 2021 tynnwyd y rhywogaeth oddi ar Restr Goch yr IUCN o Rywogaethau Mewn Perygl.

## Y fflw adar

Mae'r DU yn gartref i boblogaethau o adar môr sy'n magu o bwysigrwydd rhyngwladol, gan gynnwys 20% o lursod y byd, 55% o huganod y byd, a chanran anhygoel o 80% o adar drycin Manaw y byd. Mae adar môr ymhlith y

grŵp o adar sy'n wynebu'r bygythiad mwyaf, allan o'r 25 rhywogaeth sy'n magu yma yn y DU, mae 24 yn Goch neu'n Oren ar y rhestr o Adar o Bryder Cadwraethol y DU.

Mae'r pandemig byd-eang o'r ffliw adar yn cael effaith ddinistriol ar adar y DU – mae effeithiau trasig y clefyd i'w gweld ledled y DU gydag adroddiadau bod miloedd o adar yn marw ac yn sâl.

Credir bod y ffliw yn tarddu o'r epidemig sydd wedi effeithio ar ffermydd dofednod yn y Dwyrain Pell. Mae niferoedd mawr o adar caeth sy'n cael eu cadw'n agos at ei gilydd ac mewn amodau cyfyng yn darparu amodau perffaith ar gyfer achosion newydd - a gall dofednod sy'n cael eu ffermio mewn ffatri fod yn agored iawn i'r clefyd hefyd. Mae'r nodwedddion hyn o ffermio dofednod dwys yn golygu, unwaith y bydd clefyd yn dod i'r amlwg, y gall ledu'n gyflym drwy poblogaeth fawr a bod yn anodd ei reoli. Mae achosion o'r fath yn symptom o'r system ffermio anghynaliadwy hon.

Mae'r Ymddiriedolaethau Natur yn galw am y canlynol:

1. Dull newydd o ffermio dofednod – rydym yn gwybod bod unedau dwys sy'n cadw miloedd o ieir ac adar domestig eraill mewn ysguboriau yn gwaethygu'r broblem o glefydau heintus, drwy ddarparu amodau delfrydol i bathogenau newydd ddatblygu, a all wedyn ledaenu i adar gwyllt.
2. Y Llywodraeth i ddatblygu strategaeth genedlaethol i helpu poblogaethau o adar gwyllt i adfer.
3. Systemau monitro, goruchwylio, ymchwil ac adrodd effeithiol ar waith i feithrin dealltwriaeth amser real o'r feirws a'i gynnydd mewn adar gwyllt.
4. Meithrin gwydnwch mewn poblogaethau bregus drwy fesurau adfer a chadwraeth. Mae hyn yn cynnwys osgoi datblygiadau niweidiol ar y môr a lleihau nifer yr adar môr sy'n cael eu lladd mewn sgil-ddalfa.
5. Mwy o fuddsoddi mewn sut a pham mae hyn yn digwydd, er mwyn sicrhau'r siawns orau o osgoi trasiedïau tebyg yn y dyfodol.
6. Mwy o adnoddau i elusennau bywyd gwyllt a byd natur i helpu gyda monitro a mynd i'r afael â'r broblem.

Beth i'w wneud os byddwch chi'n gweld aderyn marw neu sâl:

- Ffoniwch linell gymorth Defra ar 03459 335577 os byddwch yn dod o hyd i aderyn sâl neu farw. Mae perchnogion tir yn gyfrifol am gael gwared ar adar marw. Cysylltwch â'r Awdurdod Lleol os dewch o hyd i aderyn marw ar draeth. Darllenwch dudalen cyngor Defra [yma](#).

- Peidiwch â chyffwrdd unrhyw adar sâl neu farw.

- Cadwch gŵn ac anifeiliaid anwes eraill oddi wrth unrhyw adar marw neu sâl.

- Peidiwch â bwydo adar dŵr gwyllt.

- Peidiwch â chyffwrdd plu adar gwyllt neu arwynebau sydd wedi'u llygru â thail.

**[Ardaloedd Morol Hynod Warchoddedig | Yr Ymddiriedolaethau Natur](#)** – mae'r safleoedd sydd wedi'u dynodi yn cynnwys y canlynol:

- **Bae Allonby** – ardal bwysig tua'r lan, oddi ar arfordir Cumbria. Mae'r ardal fioamrywiol hon yn cynnwys riffiau pwysig o gregyn gleision a rhai o'r enghreifftiau gorau o riffiau llyngyr diliau yn y DU. Mae'n ardal silio ar gyfer môr-gathod styds a chredir ei fod yn llecyn geni pwysig i lamhidyddion yr harbwr. Mae adar môr fel gwylogod yn bwydo yma yn aml. Mae'r ardal yn cynnwys llawer iawn o garbon ac yn darparu gwarchodaeth arfordirol a rhag llifogydd.

- **Dolphin Head** – ardal amrywiol yn y Sianel, tua 55km oddi ar arfordir Sussex. Mae'r morwedd hwn sy'n cael ei reoli gan y llanw, ac ymchwydd Cefnfor yr Iwerydd yn dylanwadu hefyd, yn cynnwys amrywiaeth wych o rywogaethau gan gynnwys cimychiaid, llysywod a llyngyr sy'n adeiladu riffiau. Mae hyn yn denu dolffiniaid ac adar môr i fwydo. Fodd bynnag, mae blynyddoedd o weithgareddau pysgota niweidiol wedi difrodi gwely'r môr yma. Bydd dynodiad HPMA yn galluogi'r ecosystem yma sydd wedi'i diraddio i adfer, gyda buddion i'r dyfroedd amgylchynol.

- **I'r Gogledd Ddwyrain o Farnes Deep** – ardal ym Môr y Gogledd gyda gwaddodion sy'n gyfuriog o fywyd. Mae'r ardal hon yn cwmpasu gwaddodion islanwol sy'n bwysig ar gyfer storio carbon, cregyn morwyn mwyaf, sêr môr, cwils môr, anemonïau a physgod. Mae dolffiniaid, morfilod a llamhidyddion yr harbwr yn defnyddio'r ardal hon – llecyn gwych sy'n haeddu cael ei warchod.

### **Generation Sea:**

Eleni, am y tro cyntaf, mae'r Ymddiriedolaethau Natur wedi ffurfio **Generation**

**Sea**, grŵp llywio i ieuenctid. Bu'r cyfranogwyr hefyd yn cyd-ddylunio rhaglen yr Wythnos Forol Genedlaethol eleni, gyda syniadau a chynnwys newydd am rywogaethau morol anhygoel ledled y DU. Cymerodd Maddy de Marchis, aelod o'r grŵp, ran ar banel ieuenctid yng Nghynhadledd Ffederasiwn yr Ymddiriedolaethau Natur, gan ofyn cwestiynau am adferiad byd natur i Brif Weithredwyr a Chadeiryddion yr Ymddiriedolaethau. Bu Generation Sea hefyd yn cymryd rhan yn yr Wythnos Gobaith, gan ddarparu cynnwys fideo ar brosiect ailgyflwyno wystrys ac ymunodd â'r Dathliad o Ymgyrchu gan Ieuenctid ym mis Rhagfyr. Fel rhan o'r Wythnos Gobaith, creodd Libby Smith, cyfranogwr GenSea, fideo am Brosiect Gwella Amgylcheddol Dornoch (DEEP) sy'n adfer poblogaethau o wystrys brodorol yn Dornoch Firth yng ngogledd yr Alban, a sut mae wedi rhoi gobaith iddi a'i hysbrydoli i gymryd camau pellach dros yr hinsawdd.

*Meddai Katie Micklewright o Generation Sea:*

“Mae ymuno â Generation Sea wedi fy helpu i rannu fy hoffter o fywyd gwyllt y môr gydag eraill yn fy nghenedlaeth i. O ystyried yr heriau sy'n wynebu bywyd gwyllt morol, fel llygredd a newid yn yr hinsawdd, rydw i'n meddwl ei bod yn bwysicach nag erioed i ni ddysgu am rywogaethau morol a'u pwysigrwydd gan mai ni yw'r rhai fydd yn gweithio i liniaru effaith y bygythiadau yma yn y dyfodol. Dyna pam ei bod yn wych bod yn rhan o'r Wythnos Forol Genedlaethol eleni a gweld cymaint o bobl ifanc yn ymgysylltu â hi. Yn bendant fe roddodd obaith i mi y bydd cenedlaeth sy'n barod i frwydro yn erbyn yr heriau hyn a gwarchod byd natur.”

*Dyweddodd Libby Smith, Generation Sea:*

“Mae lansio Generation Sea eleni wedi hwyluso cysylltiad rhwng unigolion tebyg sydd wedi ymrwymo i gyfrannu at adfywio ac adfer bywyd arfordirol a morol y DU. Mae Generation Sea wedi fy ngrymuso i i weithredu dros yr hinsawdd fy hun, ac wedi fy nghadw i'n ymwybodol o fentrau a phrosiectau'r gorffennol, y rhai diweddar a'r rhai arfaethedig sy'n ymwneud â bywyd gwyllt morol y DU. Un o fy uchafbwyntiau morol negyddol i ar gyfer y flwyddyn yw dod i wybod y bydd Rishi Sunak yn gwthio dyddiad cau'r DU ar gyfer gwerthu ceir petrol a disel newydd yn ôl, a'r camau i gael gwared ar foeleri nwy yn raddol; diffyg mawr o ran mater hinsawdd brys a ddylai, yn fy marn i, gael ei flaenoriaethu. Ond un uchafbwynt morol oedd cymryd rhan ym mhennod podlediad 'Wild about Wellbeing' yr Ymddiriedolaethau Natur, o'r enw 'Nature

in mind: Beating The Blues With Blue’, lle wnes i drafod bwnc pwysig eco-orbryder, sydd ddim yn cael ei gydnabod yn eang. Rydw i’n obeithiol y bydd camau cadarnhaol a chamau gweithredu ystyrllon yn cael eu cymryd y flwyddyn nesaf i adfer a gwarchod bywyd morol ac arfordirol y DU, ac rydw i’n gyffrous am gymryd rhan mewn cyfleoedd sy’n codi yn y dyfodol fel aelod o dîm Generation Sea.”

### **Cyfeiriadau eraill:**

[Arwyr byd natur yn cael eu cydnabod am ymroddiad gydol oes i fywyd gwyllt a llefydd gwyllt | Yr Ymddiriedolaethau Natur](#)

[Gwobrau Gwirfoddolwyr Marsh | Yr Ymddiriedolaethau Natur](#)

[Adfer bywyd i forwedd Solent | Ymddiriedolaeth Natur Swydd Hamp ac Ynys Wyth \(hiwwt.org.uk\)](#)

**Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â [press@wildlifetrusts.org](mailto:press@wildlifetrusts.org)**